



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

Y camau sydd eu hangen Gwybodaeth bellach

Dim

Dylid anfon ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i:
IMS@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru drwy: <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Dogfennau cysylltiedig

Gellir dod o hyd i Reoliadau Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth i ysgolion yn:
<https://llyw.cymru/rheoliadau-syn-llywodraethurstrategaeth-rheoli-gwybodaeth>

Cyflwyniad

Ym mis Awst 2020, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, daethom â Rheoliadau diwygio i rym a oedd yn dirymu rheoliadau pennu targed perfformiad ac absenoldeb ysgolion ac yn llacio nifer o ofynion adrodd eraill mewn ysgolion ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20. Yn sgil amhariad parhaus pandemig y coronafeirws ar flwyddyn ysgol 2020/21, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus tebyg ym mis Mawrth ar Reoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Bydd y Rheoliadau hyn yn addasu nifer o ofynion adrodd cyfredol mewn ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ac yn cadarnhau'r canlyniad.

Crynodeb o ymatebion

Ymatebodd 21 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iddynt am roi o'u hamser i gyflwyno eu barn. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1.

Roedd bron pob ymatebydd (20) yn cefnogi'r newidiadau a gynigiwyd ac yn teimlo bod hwn yn ddull synhwyrol sy'n adlewyrchu'n deg yr hyn y mae ysgolion wedi gallu ei wneud, o ystyried yr heriau parhaus a wynebir eleni. O'r ymatebwyr hyn, argymhellodd cwpl y dylai'r llacio fynd ymhellach mewn perthynas â rhai gofynion. Nod y cynigion yw sicrhau cydbwysedd rhwng darparu gwybodaeth bwysig a sicrwydd o gynnydd disgyblion i rieni/gwarcheidwaid, a hefyd sicrhau bod y dyletswyddau statudol, y mae'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â nhw, yn gyraeddadwy ac yn rhesymol.

Teimlai ymatebwyr y byddai llacio'r gofynion adrodd yn cael gwared ar rywfaint o'r pwysau sydd ar ysgolion, ac roeddent wedi nodi y byddent yn cefnogi pob ymdrech a wneir i leihau beichiau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y ddogfen yn deg ac yn glir, o ran yr hyn sy'n ofynnol gan ysgolion, ac roeddent yn cytuno y byddai'n ddiystyr cyhoeddi neu gymharu data presenoldeb a pherfformiad ar gyfer 2020/21. Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod y cynigion yn cynnig cyfle i ganolbwyntio ar faterion allweddol pwysicach am weddill y flwyddyn hon, megis lles.

Roedd 1 ymatebydd nad oedd o blaid dim un o'r cynigion. Roedd yn teimlo y byddai llacio'r broses o adrodd am ddata perfformiad a phresenoldeb yn golygu na fyddai rhai arweinwyr ysgolion a chyrrff llywodraethu yn cael y cyfle i ddangos sgiliau arwain cryf, tra byddai ysgolion eraill a oedd wedi cael trafferth mewn perthynas ag arweinyddiaeth a chyflawni digidol yn gallu cuddio y tu ôl i'r pandemig.

Sylwadau penodol ac ymatebion Llywodraeth Cymru

Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

Teimlai 1 ymatebydd y byddai peidio â chynnwys data presenoldeb mewn prosbectysau ysgolion yn golygu na ellid cymharu data ar draws rhanbarthau ac ar draws Cymru, ac y gallai hynny guddio tanberfformiad rhai ysgolion o ran pa mor dda y maent wedi ymateb i'r pandemig. Bydd gofyniad o hyd i gynhyrchu prosbectysau ysgolion a phrosbectysau cyfansawdd awdurdodau lleol, ond oherwydd yr amhariad amrywiol ar weithrediadau ysgolion ledled Cymru, byddai'n amhriodol cynnwys neu gymharu data ar absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig ar gyfer 2020/21.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, gan fod data presenoldeb ar gyfer eleni yn amlwg yn annodweddiadol o flwyddyn arferol. Roeddent yn teimlo bod yr amhariad

difrifol yn gwneud unrhyw ddadansoddiad cywir o ddata presenoldeb yn annhebygol ac yn anghydnaws â blynyddoedd blaenorol. Dywedodd 1 awdurdod lleol, er eu bod yn gyfrifol am gasglu data presenoldeb, eu bod yn croesawu peidio â chynnwys y data hynny mewn prosectysau yn y cyd-destun presennol.

Teimlai 1 ymatebydd y gellid cynnwys datganiad cyffredinol ym mhrosiectws yr ysgol mewn perthynas â'r camau a gymerwyd mewn ymateb i asesiadau risg y coronafeirws ac i alluogi dysgu o bell. Byddai'n rhesymol cynnwys datganiad o'r fath, ond nid yw hwnnw'n ofyniad cyfreithiol penodol.

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

Nododd 1 ymatebydd y byddai dileu gofyniad cyrff llywodraethu i adrodd ar bresenoldeb a pherfformiad yn golygu na fyddai cymariaethau rhwng ysgolion, rhanbarthol a chymariaethau cenedlaethol yn bosibl ac y gallai tanberfformiad rhai ysgolion beidio â chael ei herio. Bydd y ddyletswydd statudol i gyrff llywodraethu lunio adroddiad yn parhau, ond byddai'n amhriodol i adroddiadau gynnwys data perfformiad a phresenoldeb ar gyfer 2020/21, gan na ellir eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru wedi canslo'r broses o gasglu data presenoldeb blynyddol ac wedi atal adrodd ar fesurau perfformiad ysgolion, ar gyfer eleni, ac wedi ymrwymo na fydd ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif yn seiliedig ar ddeilliannau dysgwyr.

Dywedodd 1 ymatebydd fod adroddiadau blynyddol llywodraethwyr ysgol yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â chymuned yr ysgol a rhoi sicrwydd iddynt. Yn unol â'r Rheoliadau, dylai adroddiadau cyrff llywodraethu egluro sut y mae'r corff llywodraethu wedi rhoi ei gynlluniau ar waith ar gyfer yr ysgol ers yr adroddiad diwethaf, yn ogystal ag unrhyw gamau y mae wedi'i gymryd i adolygu polisïau'r ysgol a gweithredu ac adolygu strategaethau penodol ar gyfer yr ysgol. Dywedodd 1 ymatebydd y byddai eu hadroddiad yn canolbwyntio ar bresenoldeb ar gyfer dysgu cyfunol, mesurau dychwelyd i fesurau diogelwch yr ysgol a lles disgyblion. O ystyried yr amgylchiadau eithriadol eto eleni, byddai'n rhesymol i adroddiadau ddisgrifio sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar gynlluniau ysgolion a sut mae'r corff llywodraethu wedi gweithio gyda thîm arweinyddiaeth yr ysgol i addasu i'r her honno, ond nid yw hynny'n ofyniad cyfreithiol penodol.

Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

Teimlai 1 ymatebydd fod y term "perthnasol a defnyddiol" yn oddrychol ac y byddai'n caniatáu i ysgolion sy'n tanberfformio guddio y tu ôl i'r pandemig pe baent wedi methu â chyflawni'n ddigidol. Dywedodd ymatebydd arall y byddai adrodd am 'gynnydd' mewn termau meintiol yn ddisgwyliad annheg. Bydd darparu adroddiadau mewn perthynas â phob dysgwr yn parhau i fod yn ddyletswydd ddiamod, er mwyn helpu i roi sicrwydd o gynnydd i rieni. Bydd y gofynion i gynnwys manylion am gyflawniad addysgol dysgwr yn cael eu haddasu i "ymdrechion rhesymol" ar gyfer blwyddyn ysgol 2020/21, gan y bydd amrywiad o ran i ba raddau y bydd yr holl fanylion a bennir i'w cynnwys mewn adroddiadau ar gael. Er enghraifft, ni chaiff asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol eu trin yn berthnasol, ac mae asesiadau parhaus a phersonol yn parhau i fod yn destun "ymdrechion rhesymol" ar gyfer eleni. Os oes gan ysgolion wybodaeth addas arall am gyflawniad a chynnydd dysgwyr unigol, a all fod yn feintiol neu'n ansoddol, dylid adrodd ar hynny, gan y byddai'n berthnasol ac yn ddefnyddiol.

Teimlai 3 ymatebydd fod y term "ymdrechion rhesymol" yn amwys a bod angen ei enghreifftio er mwyn osgoi camddealltwriaeth, rheoli disgwyliadau rhieni, ac atal ysgolion

rhag cynhyrchu adroddiadau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir. Mae "ymdrechion rhesymol" yn derm cyfreithiol, sy'n golygu y dylid cydymffurfio â gofynion statudol arferol lle y gellir cyflawni hynny. Yng nghyd-destun adroddiadau penaethiaid, os nad oes rhywfaint o'r wybodaeth a bennir i'w chynnwys ar gael, ystyrir bod hyn yn rheswm derbyniol dros beidio â chydymffurfio â gofynion arferol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r gofyniad parhaus i ddarparu adroddiadau ar gyfer pob dysgwr, o ystyried pwysigrwydd meithrin cysylltiadau â phawb sy'n ymwneud ag addysg dysgwr. Roeddent hefyd yn cytuno â'r dull sy'n seiliedig ar ymdrechion rhesymol o ran yr wybodaeth briodol sydd ar gael. Wrth gytuno â'r cynigion, cydnabu rhai ymatebwyr yr her i benaethiaid roi adroddiadau ystyrlon a dibynadwy i bob rhiant ar gynnydd disgyblion eleni, a phwysigrwydd defnyddio gwybodaeth athrawon am eu disgyblion (gan gynnwys ar les ac ymrwymiad) a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt. Awgrymodd 1 ymatebydd hefyd y dylid rhoi canllawiau i benaethiaid yn nodi'r gofynion sylfaenol. Darparodd Llywodraeth Cymru gyngor y llynedd yn awgrymu y gallai adroddiadau gynnwys gwybodaeth am: gynnydd dysgwyr unigol; unrhyw gryfderau a meysydd penodol i'w datblygu; ymddygiad, lles cyffredinol, a sut maent wedi ymgymryd â'r dysgu/dysgu cyfunol.

Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011

Teimlai 1 ymatebydd y byddai dileu gofynion i adrodd ar berfformiad yn galluogi ysgolion sy'n tanberfformio i fod yn llai gweladwy. Fel uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi atal adrodd ar ganlyniadau perfformiad ysgolion eto eleni ac wedi ymrwymo na fydd ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif yn seiliedig ar ddeilliannau eu dysgwyr. Roedd yr holl ymatebwyr eraill yn cytuno â'r cynigion. Roedd rhai yn croesawu'n benodol fod y ddarpariaeth i Lywodraeth Cymru barhau i dderbyn canlyniadau cymwysterau cymeradwy yn cael ei chadw, ond yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â defnyddio data ar ddyfarniadau cymwysterau i adrodd ar gyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu ranbarth ar gyfer blwyddyn ysgol 2020/21.

Holodd 2 ymatebydd am y cysondeb rhwng ein cynnig i atal y gofyniad i ysgolion ac awdurdodau lleol gyflwyno data asesu statudol i'w hawdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru, yn y drefn honno, a gofynion asesu statudol ehangach ar gyfer gweddill y flwyddyn ysgol. Cadarnhawyd ers hynny, am weddill y flwyddyn ysgol: na fydd asesiadau diwedd cyfnod allweddol (y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3) a'r gofynion cymedroli cysylltiedig yn cael eu trin yn berthnasol; ac y bydd asesiadau personol ac asesiadau parhaus yn parhau ar sail "ymdrechion rhesymol". I gael rhagor o wybodaeth am y trefniadau asesu gweler y ddolen isod:

<https://llyw.cymru/trefniadau-asesu-tymor-yr-haf-2021>.

Cyffredinol

Cododd rhai ymatebwyr sylwadau a oedd y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau hyn, sef llacio'r gofynion statudol perthnasol ar gyfer eleni yn unig, oherwydd effaith y coronafeirws. Er na ddarparwyd ymatebion, nodwyd y sylwadau hynny.

Soniodd 1 ymatebydd am yr heriau sylweddol y mae ysgolion yn eu hwynebu o ran ceisio ennyn diddordeb rhai dysgwyr a chynnal eu diddordeb. Nodwyd hefyd y cynnydd mewn cwynion gan rieni a'r pwysau a'r llwyth gwaith ychwanegol yr oedd hynny'n ei roi ar ysgolion.

Awgrymodd 1 ymatebydd y byddai rhywfaint o werth mewn dadansoddiad syml ar lefel pwnc o ganlyniadau cymwysterau ar lefel genedlaethol, megis dosbarthiadau graddau, er

mwyn rhoi sail i ysgolion allu hunanarfarnu yn erbyn ffigurau cenedlaethol. Cyhoeddwyd y math hwn o ddadansoddiad gan Lywodraeth Cymru y llynedd drwy'r ddolen isod, a chaiff ei ddiweddarau yn seiliedig ar ganlyniadau o 2020/21: <https://llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2019-i-awst-2020>.

Dywedodd 2 ymatebydd fod adroddiadau blynyddol cyfredol y prosbectws a/neu'r llywodraethwyr wedi dyddio mewn perthynas â gofynion rhieni, wedi creu gwaith diangen i ysgolion a llywodraethwyr, ac y dylid adolygu'r dull cyffredinol o ddangos yr hyn a gyflawnir gan ysgol yng ngoleuni'r datblygiadau digidol diweddar. Roeddent yn teimlo bod yr adroddiadau'n debyg i'w gilydd, a nodwyd mai arweinwyr ysgolion sy'n aml yn cael y llwyth gwaith. Holwyd hefyd am eu defnyddioldeb, oherwydd ymddengys mai nifer isel o bobl sy'n ymhel â nhw.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus. Mae mwyafrif clir yn cefnogi'r cynigion ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r materion a godwyd yn cyfiawnhau newid y cynigion hyn. Felly, caiff y Rheoliadau eu gwneud a'u gosod gerbron Senedd Cymru ar 28 Mai 2021.

Atodiad 1: Rhestr o ymatebwyr

- 3 unigolyn
- 7 ysgol gynradd
- 1 ysgol uwchradd
- 1 esgobaeth
- 1 awdurdod lleol
- 2 consortiwm rhanbarthol
- 3 undeb athrawon
- Estyn
- Gwasanaethau Governors Cymru
- 1 Pwyllgor Ymgynghori Llywodraethwyr